
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 1076 (Cy. 227)

TAI, CYMRU

**Rheoliadau Rhentu Cartrefi
(Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw
Ynddi) (Cymru) (Diwygio) 2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/6 (Cy. 4)) ("Rheoliadau 2022") sy'n rhagnodi'r materion a'r amgylchiadau y mae rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi ai peidio.

Mae rheoliad 2(2)(a) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 6(3) o Reoliadau 2022 fel bod gan y landlord 14 o ddiwrnodau, gan ddechrau â'r dyddiad meddiannu, i roi i'r deiliad contract gopi o'r adroddiad ar gyflwr trydanol mwyaf diweddar a chadarnhad ysgrifenedig o unrhyw waith ymchwilio neu atgyweirio a wnaed ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl yr archwiliad diogelwch trydanol y mae'r adroddiad ar gyflwr trydanol yn ymwneud ag ef.

Mae rheoliad 2(2)(b) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 6(4) o Reoliadau 2022 fel bod gan y landlord, pan fo archwiliad diogelwch trydanol yn cael ei gynnal ar ôl y dyddiad meddiannu, 14 o ddiwrnodau, gan ddechrau â'r diwrnod y cwblhawyd yr archwiliad diogelwch trydanol hwnnw, i roi i'r deiliad contract gopi o'r adroddiad ar gyflwr trydanol sy'n ymwneud â'r archwiliad hwnnw.

Mae rheoliad 2(2)(c) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 6(5) o Reoliadau 2022 fel bod rhaid i'r landlord, pan fo gwaith ymchwilio neu atgyweirio yn cael ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl y dyddiad meddiannu, roi i'r deiliad contract gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith hwnnw o fewn 14 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cafodd y landlord y cadarnhad.

Mae rheoliad 6(8) o Reoliadau 2022 yn cynnwys diffiniad o “safonau diogelwch trydanol” sy’n cyfeirio at y safonau ar gyfer gosodiadau gwasanaeth trydanol a nodwyd yn y deunawfed argraffiad o’r Rheoliadau Gosod Gwifrau sef y “Wiring Regulations”, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg a’r Sefydliad Safonau Prydeinig fel BS 7671:2018+A1:2020. Mae rheoliad 2(2)(d) o’r Rheoliadau hyn yn diweddarau’r cyfeiriad hwnnw i’r fersiwn fwyaf diweddar a gyhoeddwyd yn 2022 gan y Sefydliad Safonau Prydeinig.

Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2022 yn ymwneud â chymhwyso’r Rheoliadau hynny mewn perthynas â chontractau wedi eu trosi ac mae paragraff (5) o’r rheoliad hwnnw yn amnewid rheoliad 6(4) o Reoliadau 2022 mewn perthynas â’r contractau hynny. Mae rheoliad 2(3) o’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r rheoliad 6(4) hwnnw a amnewidiwyd fel bod gan y landlord, pan fo archwiliad diogelwch trydanol yn cael ei gynnal ar ôl i adroddiad gael ei roi i’r deiliad contract o dan reoliad 6(3)(a) (fel y’i diwygiwyd gan reoliad 7(4) o Reoliadau 2022), 14 o ddiwrnodau, gan ddechrau â’r diwrnod y cwblhawyd yr archwiliad diogelwch trydanol hwnnw, i roi i’r deiliad contract gopi o’r adroddiad ar gyflwr trydanol sy’n ymwneud â’r archwiliad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 1076 (Cy. 227)

TAI, CYMRU

**Rheoliadau Rhentu Cartrefi
(Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw
Ynddi) (Cymru) (Diwygio) 2022**

<i>Gwnaed</i>	<i>24 Hydref 2022</i>
<i>Gosodwyd Senedd Cymru</i>	<i>gerbron 25 Hydref 2022</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>30 Tachwedd 2022</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 94(3) a 256(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Tachwedd 2022.

Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022

2.—(1) Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6 (diogelwch trydanol)—

- (a) ym mharagraff (3), yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “7 niwrnod”, rhodder “14 o ddiwrnodau”;
- (b) ym mharagraff (4), yn lle “7 niwrnod”, rhodder “14 o ddiwrnodau”;

(1) 2016 dccc 1.

(2) O.S. 2022/6 (Cy. 4).

- (c) ym mharagraff (5), yn lle “7 niwrnod”, rhodder “14 o ddiwrnodau”;
- (d) ym mharagraff (8), yn y diffiniad o “safonau diogelwch trydanol”, yn lle “BS 7671:2018+A1:2020”, rhodder “BS 7671:2018+A2:2022(1)”.

(3) Yn rheoliad 7 (cymhwyso i gontractau wedi eu trosi), ym mharagraff (5), ym mharagraff (4) a amnewidiwyd, yn lle “7 niwrnod”, rhodder “14 o ddiwrnodau”.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion

Cymru

24 Hydref 2022

(1) BS 7671:2018 (ISBN-13: 978-1-78561-170-4) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018, fel y'i cywirwyd gan gorigendwm dyddiedig Rhagfyr 2018; a ddiwygiwyd gan Ddiwygiad 1:2020 a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror 2020 (ISBN-13: 978-1-83953-193-4); a gywirwyd gan gorigendwm i BS 7671:2018+A1:2020 dyddiedig Mai 2020; ac a ddiwygiwyd gan Ddiwygiad 2 i BS 7671:2018+A2:2022. Gellir cael copiâu gan y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg yn: The Institution of Engineering and Technology, Michael Faraday House, Six Hill Way, Stevenage, SG1 2AY.